



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

## **Munudau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**

**13 Mai 2022**

**9:00 yb to 11:00 yb**

**Trwy gyfrwng Zoom**

Yn bresennol:	Mary Wimbury (Cadeirydd), Alwyn Jones, Alison Kemp (yn bresennol ar ran Bethan E Jones), Ann Woods, Catrin Roberts, Estelle Hitchon, Ffion Johnstone, Fôn Roberts, Helen Corcoran, Meinir Williams-Jones, Morwena Edwards, Neil Ayling, Nicola Stubbins, Ricki Owen, Rob Smith, Sam Parry, Shan Lloyd Williams, Sian Tomos, Teresa Owen
Ymddiheuriadau:	Bethan E Jones, Chris Stockport, Y Cyng. Bobby Feeley, Y Cyng. Cheryl Carlisle, Y Cyng. Christine Jones, Y Cyng. Dafydd Meurig, Y Cyng. John Pritchard, Y Cyng. Llinos Medi Huws, Dave Hughes, Delyth Lloyd-Williams, Dr Lowri Brown, Iwan Davies, Jenny Williams, Jo Whitehead

### **1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

Dywedodd y Cadeirydd y bydd y cyfarfod yn cael ei ddefnyddio i roi gwybodaeth am Fodelau Gofal y Gronfa Fuddsoddi Refeniw, gan nad oes cworwm. Bydd eitem agenda Modelau Gofal Cronfa Fuddsoddi Refeniw yn cael ei gyflwyno eto ym mis Mehefin i'w gymeradwyo gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC).

### **2 Cronfa Fuddsoddi Refeniw**

Cynnig Rhaglen Fuddsoddi Drafft ar gyfer pob Model Gofal:

Yn dilyn briffiadau Cronfa Fuddsoddi Refeniw lefel uchel i aelodau BPRhGC, cyflwynodd CR grynodedb ar wahân ar gyfer y Modelau Gofal. Mae gwaith yn parhau gyda phartneriaid ar y ddogfen; yn benodol ar elfen gyllid a'r cynlluniau arfaethedig i gefnogi pob model, a bydd y wybodaeth hon ar gael yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin.

Fe soniodd CR am adborth cadarnhaol gan LIC am ddogfen Cronfa Fuddsoddi Refeniw a'r gwaith cyffredinol. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth:

- ynglŷn â sut bydd y galluogwyr yn cael eu rheoli a sut i gyflawni'r canlyniadau disgwyliedig
- Adnabod pethau cyffredin o bob Model Gofal
- Egluro sut mae pob Model Gofal yn mynd i'r afael â phwyntiau a godwyd yn yr Aseiad o Anghenion y Boblogaeth

Rhoddodd CR grynodedb o bob Model Gofal, gan ganolbwyntio ar y Canlyniadau sy'n Canolbwyntio ar Bobl, Prif Bwyntiau a nodwyd, y nifer o Grwpiau Poblogaeth a Galluogwyr Allweddol ac yn olaf, y Crynodeb o Gynlluniau sydd wedi'u cynnwys ym mhob model. Mae gwaith yn parhau o ran cydgrynhoi pa gynlluniau sydd yn cefnogi pob Model Gofal, gyda rhai cynlluniau eisoes wedi'u nodi.

Adborth yr aelodau ar y Model Gofal:

#### 1. Gofal yn y gymuned - atal a chydlynu cymunedol

- Gofynnodd TO a oedd ystyriaeth lawn wedi cael ei roi i gynaliadwyedd canolfannau o fewn cymunedau, gyda nifer o ganolfannau yn gweithredu ar grantiau tymor byr, a chynigodd fod yn rhan o'r fforwm i drafod agwedd fanwl y gwaith yma.

Dywedodd TO hefyd fod mwyafrif y gwaith ar y Model Gofal yma'n canolbwyntio ar gydlynu, heblaw'r canolfannau sydd yn ymwneud â'r agwedd atal. Cynigiodd TO hefyd i fod yn rhan o drafodaethau ar y rhaglen ataliol trwy gydol y gwaith yma.

Dywedodd CR fod cynaliadwyedd yn allweddol ac yn thema i holl waith Cronfa Fuddsoddi Refeniw, y nod yn y pendraw yw model cynaliadwy sydd wedi'i sefydlu mewn i wasanaethau craidd ar ddiwedd y cyfnod o 5 mlynedd. Pan fydd dogfennau Modelau Gofal a'r cynlluniau sy'n cefnogi pob Model Gofal wedi'u penderfynu, bydd trafodaethau'n cychwyn gyda phartneriaid ar weithio tuag at fodel cynaliadwy.

- Pwysigrwydd sicrhau bod dysgu wedi'i sefydlu ar draws y rhanbarth, a bydd hyn yn sbardun allweddol i bob model.

#### 2. Gofal yn y gymuned - gofal cymhleth yn nes at y cartref

- Bydd rôl y Fferyllfa Gymunedol yn sylweddol yn y dyfodol ac mae'n aneglur a ddylai'r Fferyllfa Gymunedol gael ei gategoreiddio o dan y Model Gofal cynharach a'r agenda ataliol.

Cytunodd CR i adolygu'r cynlluniau a gwaith sydd yn gorgyffwrdd ac ailasesu categorieiddiad y fferyllfa gymunedol arbenigol.

- Mae cyllid sylweddol wedi cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau a sefydlwyd dros y 5 mlynedd diwethaf. Rhoddir ystyriaeth arfaethedig i drosglwyddo rhai adnoddau o fewn y cyllid yn y dyfodol, ond eto'n ymwybodol bod gan BIPBC Canolog gynnig cyn hir i LIC sy'n ymwneud ag Ysbyty yn y Cartref. Byddai angen trafod hynny yn rhan o Fodel Gofal 'Gofal yn y gymuned - Gofal cymhleth yn nes at y cartref'.
- Cynigiodd EH i rannu cyflwyniad ar Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn llunio strategaeth hir dymor i ystyried synergeddau a chyfluoedd a sut y byddai hyn yn cyd-fynd â datblygiad pellach gwaith Model Gofal Cronfa Fuddsoddi Refeniw.
- Mae'n hanfodol bod gwasanaethau a gomisiynir yn cael eu cynnwys yn y gwaith ar weithlu a rolau integredig, er mwyn sefydlogi a diogelu'r farchnad gofal cartref at y dyfodol
- Dywedodd RS fod rhywfaint o'r gwaith sydd wedi'i gynnwys yn y cyflwyniad eisoes wedi symud yn ei flaen yn y Dwyrain ac mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwelliannau i wasanaethau Home First a D2RA ac mae'r cyllid yn cael ei groesawu i greu gwelliannau a gwasanaethau cynaliadwy.
- Ystyried sut y gallai'r sector gofal cartref ddarparu gwasanaethau i hyrwyddo cynaliadwyedd h.y. llywio cymunedol, atal codymau ac ati.

### 3. Gwasanaeth Gartref o'r Ysbyty

- Byddai Cynghorau Gwirfoddol Sirol â diddordeb adolygu Un pwynt Mynediad a datblygu'r cysylltiadau gyda'r trydydd sector a'r buddsoddiad cynyddol mewn presgripsiynu cymdeithasol.
  - Yr adran ar hyfforddi staff cartref gofal ar atal codymau a dysffagia i gael ei ailystyried - newid i ragor o hyfforddiant neu uwchsgilio.
  - Darpariaeth SUSD i gael ei ystyried a'i drafod ymhellach ac i bawb fod yn ymwybodol o bob dewis.
- ### 4. Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chefnogaeth therapiwtig i blant mewn gofal
- Dywedodd RO nad yw gwasanaethau adsefydlu ar draws Cymru yn cael eu darparu'n ddigonol i blant sydd â nam ar eu golwg, a gofynnodd a oes yna ddarpariaeth gwasanaeth digonol ar draws y rhanbarth ac os yw hyn yn faes o ddiddordeb i'w wella/aillstrwythuro.

Cytunodd FR i edrych ar, a thrafod hyn ymhellach gyda RO y tu allan i Fwrdd Partneriaethau Rhanbarthol Gogledd Cymru.

- Sut mae'r Model Gofal yma'n cysylltu â blaenoriaethau Plant BPRhGC yn gyffredinol, a phwysigrwydd sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i holl waith plant a deall ac ystyried yn fanwl sut y gellir cydgrynhoi'r gwaith.
- Rhaid ystyried bodloni anghenion pobl ifanc (16-25 oed), sydd yn aml yn disgyn rhwng gwasanaethau plant ac oedolion yn benodol o ran iechyd meddwl (Pontio).

Dywedodd CR mai Strategaeth 'Dim Drws Anghywir' yw'r brif strategaeth o ran plant. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ac mae'n datblygu drwy is-grŵp BPRhGC Plant i ystyried yn fanwl a llywio blaenoriaethau a nodwyd o'r Aseiad o Anghenion Poblogaeth sydd eu hangen o dan NWD ac yna Model Gofal Cronfa Fuddsoddi Refeniw. Yn y pen draw bydd gwaith NWD yn cyflwyno un darn integredig o waith.

#### 5. Hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da

- Gwaith sydd yn gorgyffwrdd gyda'r maes ataliol ac mae angen rhagor o waith h.y. heneiddio'n iach, llesiant yn gyffredin ac mae croeso i TO drafod ymhellach i roi cyfraniad ychwanegol.

#### 6. Datrysiadau mewn llety

- Bydd yr adran ar Iechyd a Diogelwch ar gyfer Cartrefi Gofal o dan amcan 1 yn cael ei adolygu.
- Digartrefedd - mae'r gwaith ar ddigartrefedd yn cyd-fynd â'r canllaw gan Lywodraeth Cymru a'r Model Gofal a'r Sector Tai, sydd hefyd yn rhan o'r Aseiad o Anghenion y Boblogaeth.

Cytunodd CR i gysylltu â TO ynglŷn â digartrefedd a chynlluniau cyfalaf ar ôl y cyfarfod.

#### 7. Anableddau dysgu

Dywedodd CR fod canlyniadau rhanbarthol wedi'u creu ar gyfer Model Gofal anableddau dysgu gan nad oedd hyn yn Fodel Gofal mandadedig gan LIC.

Sylwadau Cyffredinol ar y Modelau Gofal :

- Y Gymraeg i gael ei chynnwys trwy gydol y modelau, a chynnwys edefyn euraidd mewn i'r gwaith troswaol.
- Mae'r cynlluniau sydd wedi'u hystyried o dan y Model Gofal yn bennaf yn rhaglenni sydd eisoes yn bodoli o dan y Rhaglenni Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig. Pan fydd y gwaith yma wedi'i gwblhau, bydd gweddill y cyllid yn cael ei ddefnyddio i edrych ar gynlluniau newydd. Bydd pob rhaglen yn esblygu yn ystod y cyfnod 5 mlynedd, gyda chyfle i gynnwys cynlluniau

newydd a diwygio cynlluniau presennol. Y nod yn y pendraw fydd cael Model Gofal terfynol yn ei le ar ddiwedd 5 mlynedd o gyllid.

- Y ddogfen PowerPoint i gael ei rhannu gydag aelodau BPRhGC, i'w drafod yn ehangach o fewn sefydliadau er mwyn codi ymwybyddiaeth a thynnu sylw at y prif bwyntiau yn y cynllun.

### Cynllun Buddsoddi Strategol Drafft

Dywedodd CR fod y Cynllun Buddsoddi Strategol yn cefnogi 7 Model Gofal Cronfa Buddsoddi Refeniw, gan fanylu ar yr isadeiledd sydd ei angen yn y tîm Partneriaeth Rhanbarthol, i gefnogi'r Gronfa Fuddsoddi Refeniw a chyfrifoldebau ehangach Rhan 9 o arweiniad SSWBA.

Mae yna rôl sylweddol i'r Strategaeth Ymgysylltu Rhanbarthol a bydd y Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu yn nodi sut i gryfhau ymgysylltu, gan weithio gyda phartneriaid i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl.

Bydd y Swyddog Gwerthuso a benodir yn gyfrifol am werthusiad parhaus pob cynllun Model Gofal gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth ar draws y rhanbarth o waith a chefnogaeth barhaus o'r gwerthusiad terfynol.

Bydd cymunedau ymarfer hefyd yn cael eu datblygu er mwyn dylanwadu ar weithgaredd, a bydd cynlluniau ystyried cael eu datblygu mewn ardaloedd neu brosiectau rhanbarthol.

Fe soniodd MW-J am 3 her:

- Yr opsiwn o ail-fuddsoddi'r cyllid yma yn y dyfodol o ganlyniad i newidiadau i asesiadau
- Diogelu parhad yr arian cyfatebol, yn enwedig yn ystod yr hinsawdd bresennol a chynaliadwyedd
- Cynnwys gweithgareddau sector Gwerth Cymdeithasol mewn i bob gweithgaredd

Fe soniodd CR eto y bydd y gronfa fuddsoddi refeniw 5 mlynedd newydd yn adeiladu ar waith ac yn dysgu o'r Gronfa Gofal Integredig a chronfa Trawsnewid hyd yn hyn. Bydd yr elfennau cyllid gan LIC yn denu canran wahanol o arian cyfatebol wrth i brosiectau symud o un cam i un arall. Prosiectau Cyflymu 10%; Prosiectau Sefydlu 30% a Phrosiectau Craidd 50%, gan siarau bod cynlluniau'n parhau i gael eu hariannu yn y rhanbarth. Ni ellir tanbriso'r elfen arian cyfatebol ac mae trafodaethau gyda phartneriaid wedi gweithio'n gadarnhaol i adnabod arian cyfatebol/adnoddau, maent hefyd yn ymwybodol o'r risg gan y gallai hyn newid a bydd angen trafodaethau parhaus gyda phartneriaid.

#### *Cam Gweithredu:*

- Crynodeb o'r Model Gofal i gael ei ddsbarthu - RW.

### **3 Diweddariad am BIPBC**

- Covid - yn parhau, er o safbwynt lechyd Cyhoeddus Cymru, bu gwelliant bychan
- Rhaglen Atgyfnerthu - cydnabyddiaeth am gydweithrediad sylweddol gan bob partner i ymgymryd â rhaglen imiwneiddio BIPBC, gyda dros 1.6m brechlyn wedi'u rhoi hyd yn hyn. Mae rhaglen frechlyn atgyfnerthu'r gwanwyn ar waith, gan aros am ragor o arweiniad gan Gyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu ar gyfer rhaglen atgyfnerthu'r hydref.
- Mae pwysau sylweddol parhaus o fewn Adrannau Achosion Brys, amseroedd aros ac ymateb Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Mae ailstrwythuro BIPBC yn parhau a bydd diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod mis Mehefin.
- Mae e-ddysgu am ymosodiad Seibr bellach yn orfodol i holl staff BIPBC

### **4 Aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol - Datganiadau o ddiddordeb Cynrychiolydd Gofalwyr**

Fe soniodd MW am banel cyfoedion a gynhaliwyd yn ddiweddar i drafod ceisiadau datganiadau o ddiddordeb ar gyfer ail gynrychiolydd gofalwyr i'r BPRhGC. Derbyniwyd tri chais ac mae'r ymgeisydd a dderbyniodd y sgôr uchaf wedi cytuno i ddechrau gwaith yng nghyfarfod BPRhGC ym mis Mehefin.

Roedd BPRhGC yn cytuno i nodi'r adroddiad.

### **5 Cofnodion a chymau gweithredu'r cyfarfod diwethaf – Ebrill 2022**

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod 08.04.2022 yn gofnod cywir a bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

### **6 Unrhyw Fater Arall**

Mynegodd NA ac AJ bryderon am barhad gwaith datblygiad rhagweithiol yn Ardal y Dwyrain yn y dyfodol, gyda gwaith presennol wedi cyrraedd pwynt hanfodol i

symud ymlaen ac uwch gydweithwyr BIPBC sydd wedi bod yn allweddol i'r gwaith yma, yn gadael eu swyddi.

Rhoddodd RS sicrwydd i gydweithwyr bod trefniadau dros dro wrthi'n cael eu rhoi ar waith i ddarparu parhad yn y tymor byr.

Bydd diweddariad am ailstrwythuro BIPBC yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod BPRhGC ym mis Mehefin, a bydd rhagor o fanylion am y swyddi dros dro yn cael eu darparu bryd hynny.

Cytunodd TO i drafod gyda Jo Whitehead a Helen Steven-Jones am bwysigrwydd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar bob datblygiad.

Diolchodd y Cadeirydd i gydweithwyr BIPBC am eu cyfraniad i BPRhGC dros y blynyddoedd a dymunodd yn dda iddynt at y dyfodol.

*Cam Gweithredu:*

- Diweddariad am ailstrwythuro BIPBC - rhaglen mis Mehefin

**7 Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Dydd Gwener, 10 Mehefin 2022, 9:00 – 12:00 yp